

21<sup>ain</sup> Hydref 2021

Annwyl Rieni / Gwarcheidwaid,


Diolch am eich cefnogaeth gyson eto dros yr hanner tymor diwethaf. Cawsom sawl digwyddiad hyfryd dros yr hanner tymor gan gynnwys gwisgo melyn ar gyfer codi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl; dathlu yn ein coch, gwyn a gwyrdd ar gyfer diwrnod Shwmae S'umae a chael parti Calan Gaeaf hyfryd ar ddiwedd yr hanner tymor.

### Cyfraniadau elusennol

Codwyd swm o £74.34 yn yr Adran Gynradd a £482.75 yn yr Adran Uwchradd ar gyfer elusennau iechyd meddwl ar ein diwrnod gwisgo melyn. Diolch am eich cyfraniadau ar gyfer CATCH (bwyydydd sych a thuniau). Byddwn yn parhau gyda'r casglu nes 5.11.21 os oes gennych unrhyw eitemau sbâr i'w rhoi. Diolch o galon i chi gyd am eich haelioni.

### Blas o waith yr hanner tymor

Mae gwaith yr hanner tymor diwethaf wedi bod yn wych unwaith eto gyda gwaith arbennig yn digwydd yn yr ardal allanol ar thema'r ardal leol a'r Hydref. Rydym yn falch iawn o'm partneriaeth newydd gyda 'My Green Valley' bydd yn ein galluogi i gymryd rhan mewn projectau cymunedol megis casgliadau sbwriel er mwyn cadw Ystalyfera'n daclus (manylion pellach i ddilyn parthed hyn). Dyma rai engrifftiau o waith bendigedig ein disgyblion i chi cael gweld.



Mae dosbarth Culhwch wedi bod yn brysur yn coginio:



Dathlu 'Diwrnod Shwmae Su'mae'



Llongyfarchiadau mawr i Steffan Austin a Jayden James



Mae Steffan a Jayden wedi cynrychioli Afan Nedd ar y tîm pêl-droed.  
Llongyfarchiadau fechgyn!

Mwy o luniau ar ein gwefan ac ar ein cyfrif Trydar!

Cofiwch ein bod bellach â gwefan newydd sydd â chopiau o'r holl lythron, gwaith gwych a llu o bethau eraill ar gyfer eich sylw. Cyfeiriad y wefan yw: <http://www.ysgolystalyferabrodur.cymru/>

A chofiwch ein dilyn ar ein cyfrif Trydar, sef: @ygybdccynradd ble rydym yn arddangos lluniau o ddisgyblion a gweithgareddau yngyd â gwybodaeth bwysig yn aml. Os nad ydych yn derbyn negeseuon i'ch cyfeiriad ebost neu eich ffôn symudol, cysylltwch â Mrs McCann yn y swyddfa er mwyn sicrhau eich bod wedi cofrestru ar gyfer ein system gyfathrebu.

**Dyma rai dyddiadau pwysig ar gyfer yr hanner tymor nesaf at eich sylw (dyddiadau eraill i ddilyn):**

1 – 5.11.21:	Cyfnod casglu ar gyfer y Banc Bwyd (eitemau sych fel grawnfwydydd, pasta a thuniau o.g.y.dd)
17.11.21:	Diwrnod imiwneddio ffliw dosbarth Derbyn – Bl 6
19.11.21:	Gwasanaeth dosbarth Pwyll (dros TEAMS, nid wyneb i wyneb)
19.11.21:	Diwrnod Plant Mewn Angen (Croeso i ddisgyblion wisgo lan mewn gwisg ffansi / nwyddau Plant mewn Angen neu pyjamas). Gofynnwn yn garedig am gyfraniad at yr achos os gwelwch yn dda.
29.11.21:	HMS ysgol gyfan – dim Ysgol i blant
16.12.21:	Parti Nadolig dosbarth – croeso i ddisgyblion wisgo dillad parti
17.12.21:	Diwedd Tymor

**Atgof o'n mesurau diogelu COVID**

Rydym yn parhau i ddilyn fframwaith newydd Llywodraeth Cymru ar reoli heintiau COVID-19 mewn ysgolion ac eisoes wedi rhoi mesurau mewn lle. Prif ffocws y fframwaith yw atal yr haint rhag cyrraedd yr Ysgol. Nodir yn glir yn y ddogfennaeth: 'Rhaid i unrhyw un sy'n profi yn bositif am COVID-19 hunanynysu a pheidio â dod i'r ysgol. Dylai unrhyw un sy'n datblygu symptomau hefyd hunanynysu a threfnu prawf'. Wrth gwrs, yn ychwanegol at hyn, byddwn yn cadw at ein trefniadau o systemau un ffordd, diheintydd dwylo ym mhob ystafell ac awyru effeithiol. Os fydd achos positif yn yr Ysgol, byddwn yn cyd-weithio gyda thîm Profi Olrhain a Diogelu er mwyn sicrhau bod yr Ysgol yn dilyn y canllawiau cywir.

**ParentPay / Ciniawau ysgol**

Os gwelwch yn dda, sicrhewch fod gan eich plentyn arian ar eu cyfrif 'ParentPay' os ydych yn dymuno i'ch plentyn dderbyn cinio ysgol. Neu, medr eich plentyn ddod â bocs bwyd iach gyda nhw (i gynnwys sudd (squash) neu dŵr yn unig o ran diod). Mae croeso i ddisgyblion yr Adran Iau ddod â ffrwyth eu hunain ar gyfer amser egwyl, neu gall ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen barhau i dderbyn ffrwyth wrth yr ysgol os ydych yn dymuno ar gost o £1 yr wythnos yn daladwy drwy 'ParentPay'.

Edrychwn ymlaen at groesawu pob disgybl nôl atom ar ddydd Llun, Tachwedd 1af wedi'r gwyliau hanner tymor.

Diolch am eich cefnogaeth gyson bob amser.

Yn gywir,

Mrs Angharad W Lloyd  
Arweinydd Cynradd

21<sup>st</sup> October 2021

Dear Parent / Guardian,

Thank you once again for your support over the last half term. We've held many wonderful activities over the half term including wearing yellow in order to raise awareness of mental health; celebrating our wonderful Welsh language by wearing our red, green and white on 'Diwrnod Shwmae S'umae' and our Halloween class party at the end of term.

### Charitable contributions

We raised £74.34 in the Primary school and £482.75 in the Upper school for mental health charities on our wear yellow day. Thank you for your contributions so far for CATCH (dried foods and tins). We will continue to collect items until 5.11.21 if you have any spare items to donate. Many thanks for your kindness.

### A taster of our work over the half term

Our work over the past half term has had a focus on the local area and learning outdoors as well as themes such as 'Autumn' (amongst many other themes of work). We are very pleased to notify you of our partnership with 'My Green Valley' which will enable us to take part in community projects such as litter picks (further details to follow regarding this). Here are some examples of the wonderful work our pupils have been enjoying over the last half term.



**Culhwch class busy cooking:**



**Celebrating 'Diwrnod Shwmae Su'mae'**



**Congratulations to Steffan Austin and Jayden James**



Congratulations Steffan and Jayden on representing Afan Nedd in the football team! Da iawn chi fechgyn!

**There are more photographs on our website and Twitter account!**

Our new website is now up and running where you will be able to find copies of any correspondence sent out by school, excellent work from pupils and other useful information for parents and guardians. The address of the website is as follows: <http://www.ysgolystalyferabrodur.cymru/>

Please follow us on Twitter too: @ygybdcynradd where we showcase more photographs of activities and place messages for parents. If you do not receive messages via your email or txt from us, please contact Mrs McCann in the office in order to ensure that you are registered with our school communication system.

**Here are some important dates for your calendar for the next half term (more dates to follow)**

1 – 5.11.21:	Collecting for the food bank CATCH (items such as cereals, pasta and tins please)
17.11.21:	Flu immunisation Reception – Year 6
19.11.21:	Pwyll class Assembly over TEAMS (not face to face)
19.11.21:	Children in Need Day (Pupils are welcome to dress up in fancy dress / Pudsey clothes or Pyjamas). We ask kindly for a contribution to this cause please on the day.
29.11.21:	HMS whole school – no school for pupils
16.12.21:	Class Christmas party – pupils are welcome to wear party clothes
17.12.21:	End of Term

**COVID-19**

We are still following Welsh Government's new framework on covid-19 infection control in schools and have already put measures in place. The main focus of the framework is to prevent infection from reaching the School. The documentation clearly states: "*Anyone who tests positive for COVID-19 must self-isolate and not come to school. Anyone who develops symptoms should also self-isolate and arrange a test*". Of course, in addition to this, we will keep to our arrangements of one-way systems, hand sanitiser in all rooms and effective ventilation. If there is a positive case in the School, we will work with the TTP team to ensure that the School follows the correct guidelines.

**ParentPay / School lunches:**

Please can you ensure that your child has money on their account if you require school lunches, or that your child brings a healthy packed lunch to school (water or squash only with regard to drinks). Pupils from the Junior Department are welcome to bring their own fruit for break-time (healthy snacks only please), or pupils from the Foundation Phase may continue to receive fruit from school if you wish at a cost of £1 per week payable through Parent Pay. School menu to follow as soon as possible.

We look forward to welcoming all pupils back to us on Monday, 1<sup>st</sup> November following the half term break.

Once again, thank you for your continued support.

Yours faithfully,



Mrs Angharad W Lloyd  
Leader of Primary